

## I: Bob corff dyfarnu

Annwyl Swyddog Cyfrifol

### Newidiadau i'n gofynion ar gyfer sut mae cyrff dyfarnu yn adolygu gwaith marcio ac apeliadau

Ym mis Gorffennaf 2016, cynhaliodd Ofqual ymarfer peilot i brofi seiliau ychwanegol dros apelio, sef bod gwall marcio. Yn hanesyddol, dim ond ar y sail bod camgymeriad wedi digwydd fel rhan o'r weithdrefn roedd modd apelio. Fel y gwyddoch, cafodd y seiliau newydd hyn dros apelio eu profi gan gyrff dyfarnu yn dilyn canlyniadau'r haf diwethaf mewn nifer fach o bynciau, ac mae Ofqual bellach wedi cyhoeddi canlyniad yr ymarfer hwnnw<sup>1</sup>.

Rydym wedi penderfynu bod yn gyson â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn Lloegr. I adlewyrchu'r newidiadau hyn, rydym yn cynnig ehangu cwmpas y broses apelio ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Pob pwnc Safon UG a Safon Uwch yn 2017.
- TGAU Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yn 2018.
- Pob pwnc TGAU arall yn 2019.

Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch i ddysgwyr oherwydd bydd yn rhaid i gyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn fodloni'r un gofynion ar gyfer adolygu gwaith marcio ac apeliadau, p'un a ydynt yn cael eu cynnig i ddysgwyr yng Nghymru neu yn Lloegr.

Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn gywir, bydd yr Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG yn cael eu diweddarau:

- Diwygiwyd Amod ASC.F3 i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond i gymwysterau TAG y caiff yr amod hwn ei gymhwyso ar hyn o bryd. Diwygiwyd Amod ASC.F7, a oedd yn flaenorol yn disgrifio sut y caiff yr amod hwn ei gymhwyso.

---

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/news/additional-gcse-as-and-a-level-grounds-for-appeal> (Saesneg yn unig)



- Diwygiwyd Amodau ASC.H5 ac ASC.H6 i adlewyrchu'r ffordd y caiff yr amodau hyn eu cymhwyso ar hyn o bryd. Dilëwyd Amodau ASC.H7 ac ASC.H8, a oedd yn flaenorol yn ymdrin â chymhwyso'r amodau hyn.
- Diwygiwyd Amodau ASC.I7 ac ASC.I9 i adlewyrchu'r ffordd y caiff yr amodau hyn eu cymhwyso ar hyn o bryd. Diwygiwyd Amod ASC.I12, a oedd yn flaenorol yn ymdrin â chymhwyso'r amodau hyn.
- Dilëwyd cyfeiriadau at 'Gymwysterau TAG Peilot' yn Amodau ASC.I7 ac ASC.I9, ac yn y rhestr termau.

Mae'r gofynion manwl wedi'u cynnwys yn ein Hamodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG<sup>2</sup>, sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

## Cyhoeddi Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau Bagloriaeth Cymru

Cyn hir, bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Mae angen sicrhau bod arferion sy'n ymwneud ag adolygu gwaith marcio, gwaith cymedroli ac apelïadau yn gyson ar gyfer cymwysterau cyffredinol gwahanol a bod dysgwyr yn eu deall yn dda.

## Cyhoeddi Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio wedi'i diweddarau

O heddiw ymlaen, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'i Restr o Ddogfennau Rheoleiddio. Mae'n cynnwys y diweddariadau canlynol:

- Fersiwn 2 o'r Polisi Ymgynghori
- Fersiwn 2 o'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU/TAG
- Fersiwn 2 o'r Rheolau am Geisiadau i Gynabod Cyrff Dyfarnu, a gaiff hefyd ei chyhoeddi ar adran Cydnabod ein gwefan;
- Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (Bagloriaeth Cymru) (Ebrill 2017), yn nodi ein gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer y canlynol:
  - Tystysgrif Her Sgiliau (ôl-16) Sylfaen (Bagloriaeth Cymru);
  - Tystysgrif Her Sgiliau (ôl-16) Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru);

<sup>2</sup> <http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&>



- Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen (CA4) (Bagloriaeth Cymru);
- Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru);
  
- Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG (Saesneg yn Unig);
- Egwyddorion Dyfarnu Mehefin 2017;
- Gweithdrefnau Cyfnewid Data Cymru Haf 2017 (Saesneg yn unig).

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn neu unrhyw agweddau eraill ar y newidiadau, cysylltwch â ni yn [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir

**Philip Blaker**  
Prif Weithredwr